HEDDLU DE CYMRU

ASESU RISG: **Swyddogion ar Batrôl**	LLEOLIAD: **Yr heddlu cyfan** CYFEIRNOD: **SRG 48/11**
CWBLHAWYD GAN: **P.C. 1955 S. Gorwill** DYDDIAD CWBLHAU: DYDDIAD ADOLYGU:	ASESIADAU RISG PERTHNASOL ERAILL: **Asesiad risg beicio APHSA**

Gweithgarwch Gwaith		Perygl	Risg (U-C-I)	Mesurau Rheoli Gofynnol	Ar Waith	Camau Pellach Gofynnol	
Rhif Cyf	Disgrifiad					Erbyn pryd	Unigolyn sy'n gyfrifol
1	Paratoi ar gyfer Patrôl	Anaf i'r swyddog oherwydd briffio annigonol	C/U	• Asesu risgiau tebygol i ddiogelwch swyddogion yn cynnwys risgiau corfforol y llwybr, • Patrymau patrôl, cudd-wybodaeth sydd ar gael, dangosyddion troseddau, tywydd, adeg o'r dydd, ffactorau tymhorol • Sicrhau y caiff yr holl wybodaeth berthnasol sydd ar gael ei throsglwyddo i swyddogion • Ystyried argaeledd adnoddau ychwanegol wrth drefnu swyddogion gan ystyried gwybodaeth/ cudd-wybodaeth • Ystyried yr angen am gyfarpar diogelu personol yn unol â'r amodau a ddisgwylir ar batrôl a			Swyddogion Briffio

				sicrhau ei fod ar gael yn hawdd • Swyddogion i hunanddatgan eu bod yn ffit ar gyfer eu gwaith/rôl bresennol a sicrhau bod y sefydliad yn ymwybodol o unrhyw salwch neu nam(au) ar eu gallu i weithredu. Mae'n rhaid i swyddogion sicrhau eu bod wedi cael yr imiwneiddiadau priodol yn unol â pholisi'r Heddlu/yr Uned Iechyd Galwedigaethol • Dylai Swyddogion yr Heddlu gymryd cyfrifoldeb am eu diogelwch eu hunain drwy ofyn cwestiynau a chyfrannu gwybodaeth yn ystod sesiynau briffio			
2	Trefnu swyddog amhriodol	Anaf i swyddog oherwydd bod gwybodaeth wedi'i lledaenu mewn modd annigonol	C	• Dewis swyddog priodol • Sefyllfa i gael ei hasesu a swyddog i gael ei drefnu'n unol â hynny			Swyddog Goruchwylio
3	Methiant y system gyfathrebu ar gyfer swyddogion sy'n gweithio ar eu pennau eu hunain	Anaf i swyddog oherwydd diffyg cyfathrebu	C/U	• Bod yn ymwybodol o'r lleoliad a'r ymrwymiad • Bod yn ymwybodol o fannau lle nad yw systemau cyfathrebu'n gweithio • Swyddogion i fod yn ymwybodol o'u lleoliad bob amser • Swyddog i gynnal cyswllt rheolaidd • Goruchwylwyr i ystyried rhoi cyfarpar ychwanegol			Swyddog Goruchwylio

4	**Dod ar draws pethau annisgwyl a diffyg cymorth uniongyrchol**	**Anaf i swyddog oherwydd bod gwybodaeth wedi'i lledaenu mewn modd annigonol**	**C/U**	• **Olrhain / ymchwilio i unrhyw achos o golli cyswllt â swyddog/tîm Airwaves** • **Gweithdrefnau gweithio'n unigol** • **Sicrhau y caiff batris Airwave eu gwefru cyn mynd ar batrôl** • **Sicrhau y caiff gwybodaeth newydd ei throsglwyddo i swyddogion** • **Swyddogion i gael eu hyfforddi i asesu sefyllfaoedd a phenderfynu lle y mae angen swyddogion ychwanegol** • **Swyddogion i hysbysu'r rheolwr cyn mynd i sefyllfa a allai fod yn beryglus ac wrth adael lleoliad** • **Swyddogion i asesu sefyllfaoedd ar lawr gwlad a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Ystafell Gyfathrebu** • **Yr Ystafell Gyfathrebu i ledaenu'r wybodaeth ddiweddaraf i oruchwylwyr ac ati** • **Pob swyddog i gael hyfforddiant mewn Asesu Risg Dynamig Asesu Risg**			**Swyddog Goruchwylio a Swyddog Unigol**

5	**Salwch corfforol a straen oherwydd llymder a phwysau gwaith**	**Swyddogion yn mynd yn sâl oherwydd profiadau neu ddyletswyddau llawn straen**	**C**	• **Unigolion i gael hyfforddiant ymwybyddiaeth mewn symptomau straen** • **Adroddiadau salwch ac absenoldeb i gael eu monitro er mwyn nodi problemau iechyd datblygol** • **Goruchwylwyr i fod yn ymwybodol o ofynion lles** • **Os oes angen, cynnig trefniadau cwnsela i swyddogion a'u teuluoedd.** • **Ystyried cynnal sesiynau ôl-drafod ar gyfer digwyddiadau critigol** • **Monitro'r oriau a weithir yn unol â'r Rheoliadau Amser Gwaith** • **Rhaglen les** • **Seibiau rheolaidd**			**Swyddog Goruchwylio**
6	**Lefelau staffio annigonol**	**Anaf i Swyddogion oherwydd diffyg staff**	**C/U**	• **Asesu risgiau tebygol i ddiogelwch.** • **Ystyried cudd-wybodaeth droseddol ac ystadegau troseddau** • **Nodi/cyhoeddi lefelau staffio diogel** • **Ystyried yr angen i drefnu swyddogion mewn parau neu grynoadau mwy** • **Dyblu criwiau os bydd cudd-wybodaeth yn nodi hynny**			**Swyddog Goruchwylio**

7	**Peryglon yn codi o beryglon lleoliad penodol** **Canol Trefi** **Lleoliadau anghysbell** **Safleoedd dŵr** **Llinellau rheilffordd** **Safleoedd Adeiladu**	**Anaf i Swyddogion oherwydd diffyg gwybodaeth leol** **Anaf i Swyddogion oherwydd diffyg gwybodaeth leol**	**C/U**	**Cyfeirio at asesiad risg lleol ar gyfer gwybodaeth benodol am safleoedd lleol - yn cynnwys gwybodaeth am ardaloedd lle ceir llawer o ddamweiniau. Asesiad risg dynamig o leoliadau / sefyllfaoedd newidiol** • **Cadw llygad am gerbydau sy'n symud** • **Gwisgo siaced gweledd uchel er mwyn cael eich gweld yn haws** • **Bod yn ymwybodol o fannau lle nad yw'r radio'n gweithio, a pheryglon lleoliad eraill** • **Gweithdrefn 'amser allan' gyda'r ystafell reoli os bydd angen** • **Rhoi sesiwn briffio ddigonol ar ddiogelwch cyn trefnu swyddogion** • **Dylai'r swyddogion fynd ar batrôl mewn parau, pan fydd amgylchiadau gweithredol yn caniatáu hynny** • **Dylai pob swyddog gwblhau Tystysgrif Achub Bywydau'r Heddlu** • **Rhaffau achub i gael eu cyflenwi mewn cerbydau** • **Dylai swyddogion fod yn ymwybodol/werthfawrogol o nodweddion pwysau/hynofedd os bydd rhaid iddynt wisgo arfwisg** • **Cysylltu â'r Adran Gyfathrebu i gael awdurdod ac i gadarnhau caniatâd Network Rail** • **Swyddogion i aros 2 fetr o'r llinellau**			**Swyddog Goruchwylio a Swyddog Unigol** **Swyddog Goruchwylio a Swyddog Unigol**

	Safleoedd tirlenwi **Seilwaith ynni** **Meysydd awyr ac ati Pob safle a all fod dan fygythiad**			• **Ceisio canllaw safle / sesiwn ymsefydlu safle os bydd angen** • **Gwisgo het galed** • **Peidio â mynd i mewn i strwythurau anniogel** • **Ceisio canllaw safle** • **Bod yn ymwybodol o beiriannau / cerbydau sy'n symud** • **Ceisio canllaw safle** • **Cysylltu â'r Adran Gyfathrebu i gael awdurdod** • **Ceisio awdurdod i fynd i'r rhannau sydd y tu hwnt i reolaeth pasbort a thollau** • **Mae angen goleuadau oren ar gerbyd** • **Radio cynhenid ddiogel** • **Siaced gweledd uchel BS EN 471 Dosbarth 3**			
8	**Peryglon sy'n codi o chwilio (nid gweithredoedd POLSA) - fel clwyfau o arfau/eitemau miniog wedi'u cuddio, unigolion/ymosodiadau gelyniaethus, heintio â firysau a**	**Anaf i'r swyddog oherwydd briffio annigonol**	**I/C**	• **Dilyn gweithdrefnau/hyfforddiant chwilio sefydledig - e.e. dull cwadrant fel y cwmpesir mewn Hyfforddiant Diogelwch Swyddogion ar gyfer pobl, cerbydau, adeiladau/strwythurau amgaeedig ac ardaloedd agored** • **Cyn chwilio unigolyn, dylid sefydlu sefyllfa o reolaeth a phrofi cydsyniad. Gofyn i'r unigolyn wagio ei bocedi. Gwneud defnydd cywir o 'ffon chwilio' os bydd un ar gael a/neu ddefnyddio pen, Maglite neu**			**Swyddog Briffio a Swyddog Unigol**

	gludir yn y gwaed ac ati			**Ampelprobe, gyda llaw mewn maneg, teimlo'r dillad** • **Dylid cario ffon chwilio a/neu Ampleprobe mewn cerbyd wedi'i farcio**			
9	**Delio â gwrthdaro treisgar gwirioneddol a gwrthdaro a all fod yn dreisgar**	**Anaf i Swyddogion oherwydd hyfforddiant annigonol**	**U**	• **Lle bynnag y bo'n bosibl cyn mynd i'r afael â throseddwyr, yn enwedig mewn torfeydd, dylai'r swyddog wneud y canlynol :** • **Asesu'r perygl i'w hunan ac ystyried yr holl opsiynau, yn cynnwys tynnu'n ôl (asesiad dynamig)** • **Adrodd ar sefyllfaoedd i'r rheolwr a lle y bo angen, aros i swyddogion ychwanegol gyrraedd cyn mynd i'r afael â throseddwyr** • **Rhoi, defnyddio ac arolygu cyfarpar diogelu personol priodol** **Swyddogion i gael eu hyfforddi yn y canlynol:** • **Gwasgaru sefyllfaoedd a all fod yn dreisgar** • **Dulliau Diogelwch Swyddogion** • **Ymwybyddiaeth o ddrylliau a chyllyll** • **Cyfathrebu tactegol ac ymwybyddiaeth o iechyd meddwl** • **Defnyddio Cyfarpar Diogelu Personol (CDP)**			**Swyddog Goruchwylio a Swyddog Unigol**

				a'i gyfyngiadau • Rhoi pecynnau cymorth cyntaf personol i swyddogion			
10	Peryglon i iechyd - Plâu e.e. Llau	Swyddogion yn cael eu heigio â llau neu rywbeth tebyg	I/C	• Hyfforddiant ymwybyddiaeth mewn achosion o blâu • Cyfyngu ar gyswllt corfforol â charcharorion a chludwyr tebygol eraill • Darparu dillad diogelu lle y bo angen • Cyfleusterau dileuo, cawodydd ac ystyried cynnig dillad glân i garcharorion sydd yn y ddalfa • Cymhwyso arfer hylendid da yn cynnwys defnyddio menig untro			Swyddog Goruchwylio a Swyddog Unigol
11	Peryglon i iechyd - clefydau trosglwyddadwy e.e. Haint - hepatitis, HIV neu glefyd trosglwyddadwy arall	Swyddogion yn cael eu heintio â chlefyd trosglwyddadwy	C/U	• Trefniadau ar gyfer glanhau dillad a chyfarpar • Rhoi hyfforddiant ymwybyddiaeth mewn rhagofalon gweithredol a chyffredinol a sut i osgoi cyswllt â hylifau corfforol • Ystyried defnyddio cyfarpar chwilio Ampelprobe a menig Needlestick wrth chwilio unigolion, dillad neu eiddo • Peidio â rhoi dwylo ym mhocedi unigolion dan amheuaeth lle gallant gynnwys nodwyddau			Swyddog goruchwylio a swyddog unigol

12	**Cadw unigolyn dan amheuaeth i gael ei gludo**	**Swyddogion yn cael anaf am fethu â dilyn dulliau atal cymeradwy neu am nad ydynt wedi cael hyfforddiant arnynt.**	**C/U**	• **Pecynnu eitemau a gymerir oddi wrth unigolyn yn ddiogel a'u labelu** • **Osgoi cyswllt â hylifau corfforol ac osgoi cael brathiad** • **Dilyn arfer hylendid da, gorchuddio toriadau a golchi dwylo ar ôl cyflawni tasgau** • **Swyddogion i gael eu brechu a chael eu had-dalu drwy'r heddlu** • **Ceisio cyngor meddygol ar ôl cael anaf gan nodwydd neu gyswllt uniongyrchol â hylifau corfforol** • **Darparu brechiadau** **Sicrhau bod trefniadau ar waith ar gyfer y canlynol:** • **Profion a thriniaeth** • **Cwnsela swyddogion a'u teuluoedd** • **Cymhwyso Dulliau Diogelwch Swyddogion** • **Hyfforddi swyddogion i gymhwyso egwyddorion symud a thrin** • **Ystyried addasrwydd cerbydau**			**Swyddog goruchwylio a swyddog unigol**
13	**Gweithio / mynd ar batrôl ar neu gerllaw tir anwastad,**	**Swyddogion yn cael anaf drwy lithro, baglu a chwympo**	**I/C**	• **Dylid gwisgo esgidiau priodol** • **Dylai swyddogion fwrw ymlaen yn ofalus; bod yn ymwybodol o newidiadau mewn arwynebau a/neu amodau tywydd. Dylid cario tortsh os bydd angen**			**Swyddog Unigol**

	arwynebau llithrig, llethrau, lefelau newidiol ac ati			• **Rhoi'r gorau i redeg ar ôl unigolyn os nad yw'r amodau'n ddiogel (asesiad risg dynamig)**			
14	**Dringo ffensys, waliau a gatiau**	**Swyddogion yn cael anaf drwy lithro, baglu a chwympo**	**I/C**	• **Swyddogion i asesu'r risg o berygl i'w hunain, gan ystyried dimensiynau/adeiladwaith wal, ffens neu gât a'r tir ar yr ochr arall**			**Swyddog Unigol**
15	**Peryglon sy'n codi o dorri i mewn i eiddo h.y. trin a thrafod (gorfodwr), gwydr wedi torri, fflaw o bren, unigolion/anifeiliaid gelyniaethus, lle gwaith cyfyngedig ac ati**	**Anaf i Swyddogion oherwydd proses annigonol o ledaenu gwybodaeth, neu Swyddogion heb eu hyfforddi** **Anaf i Swyddogion oherwydd proses annigonol o ledaenu gwybodaeth, neu Swyddogion heb eu hyfforddi**	**C**	• **Pan fo amgylchiadau gweithredol yn caniatáu, dim ond swyddogion sydd wedi'u hyfforddi mewn Dulliau Cael Mynediad ddylai dorri i mewn i eiddo yn unol â'r polisi** • **Darparu cyfarpar diogelu a'i ddefnyddio'n gywir** • **Asesiad risg lleol i fynd i'r afael â pheryglon a materion eraill sy'n ymwneud â lleoliad mynediad penodol** • **Ar gyfer pob gweithrediad a gynllunnir ymlaen llaw, dylid cyfeirio at Asesiad Risg Dulliau Cael Mynediad** • **Derbynnir y gall fod yn ofynnol i swyddogion yn eu rolau gweithredol dorri i mewn ar hap i eiddo, yn bennaf er mwyn diogelu bywyd ac eiddo. Fodd bynnag, wrth gymryd y cam hwn, gall y risgiau i swyddogion, staff a'r cyhoedd fod yn drech na'r risg(iau) i'r deiliad, a gall fod yn well gwneud cais am staff â'r hyfforddiant a'r cyfarpar priodol ac aros amdanynt (h.y. Swyddog Dulliau Cael Mynediad neu'r Frigâd Dân).**			**Swyddog Goruchwylio** **Swyddog Goruchwylio**

				Dylai swyddogion hefyd ystyried y canlynol: - • **A oes gan gymdogion a/neu warden llety â chymorth ac ati allweddi** • **Dulliau amgen o gael mynediad** • **Dim ond pan fetho popeth arall y dylid defnyddio'r baton estynadwy/Casco er mwyn torri i mewn, yn yr amgylchiadau hyn mae'n rhaid i swyddogion wneud y canlynol:** • **Sefyll yn glir/i un ochr o unrhyw wydr a gaiff ei dorri** • **Gwarchod y llygaid rhag gwydr yn hedfan** • **Gwisgo menig patrôl lledr a diogelwch i'r fraich (h.y. lapio rhywbeth o amgylch y fraich)** • **Ar ôl ei ddefnyddio yn yr amgylchiadau hyn, dylid arolygu'r baton gan chwilio am ddifrod a/neu ddarnau o wydr. Os bydd wedi'i ddifrodi neu ei halogi, ni ddylid defnyddio'r baton nes iddo gael ei drwsio/ei newid**			
16	**Tân posibl o danwydd yn gollwng.**	**Anaf i Swyddogion neu Aelodau o'r cyhoedd**	**C/U**	• **Embargo dim ysmygu yn y lleoliad** • **Sicrhau y caiff holl switsus tanio cerbydau eu troi i ffwrdd lle y bo'n bosibl** • **Dileu ffynonellau eraill posibl o danio tanwydd** • **Goleuo'r safle lle y bo angen** • **Os bydd cerbyd ar dân, dylid tynnu'n ôl o'r ardal ac ni ddylai'r swyddog roi ei hun mewn perygl diangen**			**Swyddog Unigol**

17	**Gwydr wedi torri neu ymylon garw o gerbydau wedi'u difrodi**	**Anaf i Swyddogion oherwydd methiant i wisgo Cyfarpar Diogelu Personol cywir**	**C**	• **Dylid gwisgo menig unffurf lle y bo'n briodol**			**Swyddog Unigol**
18	**Bagiau awyr gyrwyr / teithwyr**	**Anaf i Swyddogion oherwydd methiant i fod yn ymwybodol o beryglon gwirioneddol neu bosibl**	**C**	• **Oni fydd hynny'n hanfodol, dylid osgoi bod yn rhy agos at fagiau awyr heb eu hactifadu**			**Swyddog Unigol**
19	**Cerbyd yn symud**	**Anaf i Swyddogion oherwydd methiant i fod yn ymwybodol o beryglon gwirioneddol neu bosibl**	**C/U**	• **Asesu sefydlogrwydd a diogelwch cerbyd a llwyth cyn gweithredu** • **Ystyried cael cymorth gan wasanaethau eraill**			**Swyddog Unigol**
20	**Gwrthdrawiad traffig ffyrdd posibl wrth gludo plant**	**Anaf i Swyddogion neu eraill oherwydd methiant i gydymffurfio â'r rheoliadau**	**C/U**	• **Fel rheol, ni ddylid cludo plant yng ngherbydau'r heddlu oni fydd hynny'n hollol angenrheidiol *(h.y. i'w symud o le peryglus i le diogel*).** • **Os na fydd unrhyw opsiwn heblaw symud y plentyn, dylid ystyried y mesurau canlynol bob amser: -** **I. Defnyddio'r Gwasanaethau Cymdeithasol neu gontractwr arbenigol.** **II. Dylid gwahodd rhieni/gwarcheidwaid y plentyn i ddefnyddio eu cerbyd eu hunain neu i osod eu dull ataliaeth eu hunain (e.e. sedd plentyn/plentyn**			

	Gwrthdrawiad traffig ffyrdd posibl wrth gludo plant (parhad)	**Anaf i Swyddogion neu eraill oherwydd methiant i gydymffurfio â'r rheoliadau**	**C/U**	**bach), sy'n briodol ar gyfer oedran a phwysau'r plentyn, yng ngherbyd yr heddlu. *(Ni ddylid defnyddio seddi babi sy'n wynebu'r cefn mewn sedd sy'n cael ei diogelu gan fag aer yn y blaen oni fydd wedi'i dadactifadu.*** • **Lle nad yw'r camau uchod yn ymarferol (e.e. mewn sefyllfa frys) dylai'r swyddog/gyrrwr gynnal asesiad risg dynamig yn cydbwyso'r risg o gludo plentyn dan 12 oed â'i adael yn y lleoliad presennol. Os gwneir penderfyniad i symud plentyn dan 12 oed, dim ond cyn belled â'r lle diogel agosaf y dylid ei symud a dylid gwneud hyn yn y modd mwyaf diogel posibl h.y.:** **I. Rhaid i blant dros 3 oed deithio yn y sedd gefn, gan ddefnyddio gwregys diogelwch i oedolion a bod yng nghwmni oedolyn.** **II. Yn achos plant dan 3 oed, dylai'r rhiant/gwarcheidwad deithio yng nghefn y car gan ddefnyddio gwregys diogelwch a dal y plentyn ar ei lin.*(Ni ddylid atal y plentyn gan ddefnyddio gwregys diogelwch i oedolion ac ni ddylid defnyddio gwregys diogelwch ar gyfer mwy nag un unigolyn).***			**Swyddog Unigol**

21	**Stopio ac archwilio cerbyd Taro gan gerbyd - gorfodi cyflymder (ar droed)**	**Anaf i Swyddogion oherwydd methiant i gadw at reoliadau diogelwch**	**C/U**	**III. Ni ddylid gyrru'r cerbyd hwn mewn modd ymateb neu ddilyn tra'n cario plant a rhaid cydymffurfio â gofynion cyffredinol y Ddeddf Traffig Ffyrdd.** • **Ceir rhagor o wybodaeth drwy gyfeirio at bolisi'r heddlu** • **Dewis safle gorfodi penodol sy'n ddiogel ac yn addas. Dim ond mewn ardaloedd goleuedig (wedi iddi dywyllu)** • **Darparu a defnyddio dillad adlewyrchol yn briodol (gan gydymffurfio ag EN 471 Dosbarth 3)** • **Arwydd i stopio o lwybr troed/ymyl y ffordd.** • **Rhoi arwyddion yn gynnar; sicrhau bod y gyrrwr yn gallu eich gweld yn glir. Ystyried dulliau amgen o stopio (h.y. technoleg amgen).Gofyn i'r gyrrwr roi goleuadau rhybudd o berygl ymlaen.Gwahodd y gyrrwr i fynd i ardaloedd diogel y tu allan i'r cerbyd - neu siarad â'r gyrrwr drwy ffenestr y teithiwr** • **Cadw at bolisïau a gweithdrefnau gorfodi cyflymder yr Heddlu**			**Swyddog Unigol**

22	**Trin a Thrafod**	**Anaf oherwydd hyfforddiant annigonol neu fethiant i gydymffurfio**	**I/C**	• **Cyfeirio at asesiad risg Trin a Thrafod APHSA**			**Swyddog Goruchwylio a Swyddog Unigol**
23	**Delio â chŵn**	**Anaf i Swyddogion oherwydd Brathiadau gan Gŵn**	**C**	• **Ystyried cysylltu â swyddog trin cŵn, yr RSPCA neu'r awdurdod lleol** • **Ystyried defnyddio Cyfarpar Diogelu Personol fel maneg ddur, tarian cŵn, dyfais llaw i ddychryn cŵn** • **Os oes angen dal ci, y cam cyntaf fydd ei gaethiwo a'i ffrwyno** • **Dylid dod ag unrhyw gerbyd a ddefnyddir mor agos â phosibl at y ci, cyn ei ddal** • **Dylid ystyried ymddygiad y ci ac ystyried defnyddio cydwyr cŵn** • **Dylid cymryd gofal arbennig gyda chŵn ar dennyn gan eu bod yn debygol o fod yn fwy bygythiol** • **Os ystyrir bod y ci yn beryglus, dylid gofyn am gymorth ac arweiniad swyddog trin cŵn yr heddlu fydd ag amrywiaeth eang o Gyfarpar Diogelu Personol**			**Swyddog Unigol**
24	**Clefydau milheintiol o gyswllt â chŵn a chytiau cŵn**	**Anaf i Swyddogion oherwydd cyswllt â chŵn neu frathiad gan gŵn**	**C**	• **Rhoi brechiadau Tetanws unrhyw unigolyn a gaiff ei frathu gan gi** • **Dylid golchi dwylo ar ôl cyswllt â chŵn neu gytiau cŵn bob amser**			**Swyddog Unigol**

25	**Trin drylliau - Saethu dryll yn ddamweiniol**	**Anaf i Swyddogion neu aelodau o'r cyhoedd oherwydd achos o saethu dryll yn ddamweiniol**	**C/U**	• **Rhoi hyfforddiant ymwybyddiaeth o ddrylliau i holl Swyddogion yr Heddlu** • **Swyddog Drylliau Awdurdodedig i ddiogelu'r arf cyn gynted â phosibl** • **Pob dryll i gael ei storio mewn lle diogel** • **Dim ond Swyddogion yr Heddlu (neu Staff yr Heddlu hyfforddedig)** • **ddylai drin drylliau**			**Swyddog Goruchwylio a Swyddog Unigol**
26	**Mynediad i safleoedd/eiddo asiantaethau / sefydliadau eraill - Amlygiad i beryglon anhysbys**	**Anaf i Swyddogion am i wybodaeth gael ei lledaenu'n annigonol neu fethiant i wisgo Cyfarpar Diogelu Personol priodol**	**C/U**	• **Dylai'r pwynt cyswllt cyntaf fod yn dderbynfa swyddogol, swyddfa safle neu swyddfa gyfatebol** • **Dylai'r swyddogion gael sesiwn ymsefydlu fer ar ddiogelwch ar y safle** • **Dylid bod yn ymwybodol o'r holl arwyddion rhybudd o berygl heblaw mewn amgylchiadau eithriadol** • **Dylid gwisgo Cyfarpar Diogelu Personol priodol yn ôl yr angen**			**Swyddog Briffio a Swyddog Unigol**

27	**Peryglon sy'n codi o weithio'n unigol <u>Diffiniad o Weithio'n Unigol -</u> "An individual working on their own in a potentially vulnerable / at-risk location where there is likely to be an absence of immediate aid. It is required by the job, task-driven and authorised by the line manager".**	**Anaf i Swyddog oherwydd iddo gael ei drechu gan sawl ymosodwr.**	**U**	**Goruchwyliwr i ystyried patrolau dwbl/criwiau dwbl yn unol â gwybodaeth/cudd-wybodaeth** • **5Darpariaethau a defnydd cywir o gyfarpar cyfathrebu (fel uchod yn 1f) a mynediad i gymorth ychwanegol os/pan fydd angen. Defnydd cywir o weithdrefnau radio, 'amser allan' a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r ystafell reoli** • **Darparu hyfforddiant a Chyfarpar Diogelu Personol** • **Swyddogion i gynnal asesiad risg dynamig yn unol â hyfforddiant diogelwch swyddogion, rhoi'r gorau i weithio ar eu pennau eu hunain os bydd amgylchiadau'n galw am hynny ac adrodd ar ôl dychwelyd i orsaf yr heddlu** • **Yr unigolyn ddylai benderfynu p'un a yw am weithio ar ei ben ei hun, a dylai hysbysu ei reolwr llinell** • **Ar ôl cael ei hysbysu, bydd y rheolwr llinell yn gwneud y canlynol:** **Asesu addasrwydd personol i weithio ar ei ben ei hun, gan ystyried profiad, ymddiriedaeth a materion iechyd** **ii) Os yw'r addasrwydd personol yn iawn, dylid rhoi sesiwn friffio ar drefniadau lleol (e.e. sut i seinio larwm, gofynion diogelwch, ble i barcio, trefniadau tân, trefniadau i gysylltu'n rheolaidd â'r Adran Gyfathrebu)**			**Swyddog Goruchwylio**

28	**Amlygiad i sylweddau peryglus** **(yn cynnwys gorlifiau, cynwysyddion gwag, cyffuriau, cemegau fforensig, cerbydau a/neu eiddo sy'n llosgi)**	**Anaf i Swyddogion drwy amlygiad neu fynediad i gemegau peryglus**	**U**	**iii) Dylid ystyried penodi unigolyn ychwanegol i weithio, neu ohirio tasg os asesir bod risg yn rhy uchel.** • **Ar gyfer gorlifiau/cynwysyddion gwag - Dylid nodi'r sylwedd os yw'n bosibl drwy chwilio am symbolau rhybuddio am berygl, codau'r CU. Dylid cysylltu â'r ystafell reoli, a cheisio gwybodaeth gan yr Adran Gyfathrebu** • **Ar gyfer cyffuriau - dylid gwisgo menig a mwgwd bob amser wrth drin neu weithio mewn mannau cyfyngedig. Dylid eu rhoi mewn bag, eu selio a'u cludo i storfa'r eiddo i'w cadw neu'u gwaredu gan gontractwr awdurdodedig** • **Ar gyfer cemegau fforensig - dylid osgoi cyswllt drwy adael i SOCO wneud ei waith. Wedyn, dylid eu labeli â sticer rhybudd, a'u rhoi mewn bag os oes angen** • **Ar gyfer cerbydau a/neu eiddo sy'n llosgi - dylid galw'r gwasanaeth tân ac achub ac unrhyw swyddogion ychwanegol sy'n ofynnol.** • **Symud i bellter diogel a diogelu'r ardal** • **Gweithio mewn partneriaeth**			**Swyddog Unigol**
29	**Peryglon sy'n codi o weithio mewn mannau**	**Anaf i Swyddogion drwy lithro, baglu a chwympo**	**C/U**	• **Dylid osgoi gweithio mewn mannau uchel os yw'n bosibl.**			**Swyddog Goruchwylio a**

	uchel yn cynnwys cwympo, gwrthrychau'n cwympo ac ati drwy weithio mewn mannau uchel - dilyn, goruchwylio, negodi ac ati			• **Lle na ellir osgoi hyn, dylid parhau gan gymryd gofal mawr a nodi unrhyw arwyddion rhybudd (peidiwch â pharhau os oes arwydd ynghylch to bregus) a chadwch lygad am agorfeydd yn y to (h.y. ffenestri to ac ati) a gwnewch ddefnydd priodol o ddiogelwch ymylon a ddarperir** • **Dylid ystyried defnyddio cymorth arbenigol fel sy'n briodol fel tîm mynediad gan ddefnyddio rhaff, staff drylliau wedi'u hyfforddi i abseilio ac ati** • **Darparu a gwneud defnydd priodol o gyfarpar diogelu pen pan fydd perygl y bydd gwrthrychau'n disgyn o strwythurau uchel**			**Swyddog Unigol**
30	**Peryglon yn codi o weithio mewn mannau cyfyng. Gall ardaloedd o'r fath gynnwys y canlynol: - carthffosydd, ceuffosydd, tanciau cemegol diwydiannol, isloriau a hyd yn oed seilos grawn ar ffermydd. Gall rhai mannau cyfyng hefyd**	**Anaf i Swyddogion drwy fethiant i ddilyn canllawiau'r Heddlu ar weithio mewn mannau cyfyng**	**C/U**	**Diffiniad: "A workplace where there is the potential for dangerous fumes or lack of oxygen, which is not effectively controlled by natural or mechanical ventilation; difficult access and egress may also be a significant risk"** • **Dylid ceisio cyngor a chymorth gan y Tîm Chwilio ac Achub Arbenigol** • **Nid oes disgwyliad ar unrhyw swyddog i fynd i fan cyfyng a chaiff hyn ei ystyried yn weithgarwch 'risg uchel'** • **Asesu risg a chaniatâd i weithio**			**Swyddog Unigol**

	gynnwys peryglon ychwanegol os bydd amodau tywydd gwael (llifogydd) a gollyngiadau cemegol cyfagos (damweiniau traffig sy'n cynnwys cerbydau sy'n cludo cemegau a gollyngiadau sy'n rhedeg i ddraeniau ffyrdd ac ati). - diffyg ocsigen, ffrwydrad, nwyon gwenwynig a dŵr, carthffosiaeth, cemegau, deunyddiau poeth ac ati.						
31	Peryglon sy'n codi o'r angen i fynd at hofrennydd neu awyren	Anaf i Swyddogion o beryglon gwirioneddol neu bosibl yn yr awyren neu o'i hamgylch	U	• Ni ddylid mynd at hofrennydd neu awyren ag injans yn rhedeg neu olau gwrth-ddamwain yn fflachio (golau coch ar gynffon neu fol yr awyren fel arfer, sy'n olau strôb weithiau - gan			Swyddog Unigol

	sydd wedi glanio			**ddangos bod yr injans ar fin cael eu tanio)** • **Dylid ceisio cyngor arbenigol gan y Tîm Cymorth Awyr** • **Dylai swyddogion dynnu sylw'r peilot a dynodi ei fod am iddo ddiffodd yr injan drwy sefyll mewn man amlwg ond oddi wrth ardaloedd peryglus (rotorau/propelor/mewnlif injan jet a phibellau mwg) - yn ddelfrydol ar y blaen** • **Mae angen tortsh yn ystod gweithrediadau ar ôl iddi dywyllu i ddenu sylw'r peilot - dylid osgoi mynd at awyren ar ôl iddi dywyllu mewn ardal anoleuedig bob amser**			
32	**Cyrff sy'n Pydru** **Mynd ar ôl a thrin corff marw - Peryglon anhysbys Haint o hylifau corfforol a phathogenau yn yr awyr**	**Swyddogion yn cael eu heintio wrth drin cyrff marw**	**U**	• **Ynysu'r ardal** • **Ceisio cymorth gan ymgymerwyr i ddechrau wrth fynd ar ôl corff** • **Hyfforddiant ymwybyddiaeth ar hylendid a rhagofalon rhag clefydau heintus** • **Trin y corff cyn lleied â phosibl** • **Darparu Cyfarpar Diogelu Personol (Anhydraidd) a gwneud defnydd priodol ohono** • **Y corff i gael ei drosglwyddo cyn gynted â phosibl i fag corff nad yw'n gollwng**			**Swyddog Unigol**

				• Sefydlu gweithdrefn lanhau ddiogel ar gyfer cyfarpar a staff • Sicrhau bod digon o staff ar gael • Darparu cyfarpar priodol e.e. cludwelyau, trolis ac ati, a gwneud defnydd priodol ohono • Rhoi hyfforddiant ar Drin a Thrafod • Cynnal asesiad risg trin a thrafod lle y bo'n briodol			
33	Ffatri Bomiau Canfod yn annisgwyl ddeunyddiau yr amheuir eu bod ar gyfer gwneud bomiau Mynychu gweithrediad wedi'i gynllunio ymlaen llaw	Anaf i Swyddog/ion oherwydd ffrwydradau posibl	U	• Wrth gyrraedd eiddo, os bydd swyddog yn amau bod tystiolaeth o ffatri bomiau, dylid ystyried y camau canlynol: • Diogelu'r eiddo a thynnu'r unigolion sy'n bresennol oddi yno (gall fod angen cymorth adnoddau eraill) • Cysylltu â'r Adran Gyfathrebu • Dylid defnyddio radio/ffôn o bellter o 15 metr o leiaf oddi wrth yr eiddo • Dylid ynysu'r eiddo dan sylw mewn modd addas • Ni ddylid cyffwrdd/symud unrhyw eitem ar unrhyw gyfrif, dylid cael gwybodaeth am/disgrifiad o'r eitemau ac adrodd i'r Ystafell Reoli • Bydd unrhyw weithrediad a gynlluniwyd ymlaen llaw yn cael ei gynnal ar y cyd â'r Adran Gwrth-			Swyddog Goruchwylio a Swyddog Unigol

34	**Tywydd** **Garw** **Llosg Haul**	**Swyddogion yn mynd yn sâl oherwydd amlygiad i dywydd garw**	**C**	**derfysgaeth, gyda sesiwn friffio weithredol/asesiad risg llawn a chan ddefnyddio adnoddau fel sy'n briodol** **Darparu a defnyddio dillad tywydd gwlyb** **• Gwarchod y croen mewn tywydd poeth a braf** **- dylai swyddogion ystyried gorchuddio eu croen a/neu ddefnyddio eu heli haul eu hunain** **• Er mwyn osgoi dadhydradu, dylid yfed digon o hylifau**			**Swyddog Unigol**
35	**Mynychu sefyllfaoedd lle ceir tanau - tân, mwg, gwrthrychau'n syrthio neu'n ffrwydro**	**Risg o anafiadau a / neu salwch a achosir gan drefniadau annigonol a / neu amhriodol er mwyn lleihau'r peryglon sy'n gysylltiedig â mynychu Digwyddiadau Tân a Thanau Bwriadol e.e. llosgiadau neu effeithiau anadlu mwg.**	**C/U**	• **Mynd i'r safle ac asesu'r risg i swyddogion a'r cyhoedd** • **Aros am gymorth gan y gwasanaeth tân a swyddogion eraill** • **Dilyn arweiniad asiantaeth bartner** • **Sicrhau y caiff gwasanaethau tân ac achub eu galw FCC.** • **Creu ardal wedi'i hynysu'n addas ac yn ddiogel.** • **Casglu gwybodaeth am unigolion sy'n sownd neu nad oes cyfrif ohonynt. Casglu gwybodaeth am leoliad y tân a manylion eraill.** • **Safwch â'ch cefn at y gwynt os yn bosibl (llwch sment / asbestos).** • **Dylid cysylltu â Chadlywydd Digwyddiadau'r gwasanaeth tân ac achub cyn archwilio'r safle (CSI, CID ac ati) o ran peryglon y safle a chymryd mesurau priodol yn unol â hynny**			**Swyddog Unigol**

36	**Amlygiad i brofiad trawmatig (e.e. damwain traffig ffyrdd, hunanladdiad, marwolaeth plentyn)**	**Materion lles**	**C/U**	• **Y goruchwylydd yn lleddfu'r sefyllfa ar ôl y digwyddiad Trafodaethau anffurfiol yn ystod y sifft, monitro ysbryd y tîm a hwyluso cymorth ar y cyd.** • **Darparu gwybodaeth, cyfarwyddiadau a hyfforddiant i oruchwylwyr** • **Gweithredu proses Rheoli Risg o Drawma** • **Caffael a chyfeirio at gymorth seicolegol gan yr Adran lechyd Galwedigaethol** • **Rheolwyr llinell i gynnal asesiad risg o amlygiadau i ddigwyddiad, a all arwain at ofyniad i gynnal proses fonitro seicolegol ar gyfer grwpiau sy'n agored i niwed**			**Swyddog Goruchwylio**
37	**Peryglon o feicio**	**Anafiadau'n ymwneud â beicio**	**I/C**	• **Cyfeirio at asesiad risg Beicio APHSA** .			**Swyddog Unigol**
39	**Achosion o Hunanladdiad drwy Gemegau neu Lanedyddion**	**Risg o anafiadau a / neu salwch a achosir gan drefniadau annigonol a / neu amhriodol er mwyn lleihau'r peryglon sy'n**	**C/U**	• **Dylid cyfeirio at drefn weithredol barhaol.** • **Dylid cysylltu â'r FCC a chadarnhau bod amheuaeth o hunanladdiad drwy lanedyddion** • **Dylid cynnal asesiad risg dynamig**			**Swyddog Goruchwylio a Swyddog Unigol**

		gysylltiedig ag amlygiad i gemegau niweidiol		• **Ni ddylid mynd i mewn i'r eiddo os oes arogl amheus (wyau drwg neu arogl tebyg)** • **Dylid cadarnhau bod hysbysiadau rhybuddio wedi'u dangos i ymatebwyr** • **Dylid cadarnhau bod tâp wedi selio o amgylch ffenestri, drysau, tyllau aer** • **Mewn cerbydau, dylid chwilio am bibelli dŵr a chynwysyddion agored** • **Dylid cadarnhau man cyfarfod diogel - â'ch cefn at y gwynt - SAD CHALET** • **Dylid sicrhau nad oes unrhyw unigolion yn mynd i mewn i adeiladau na cherbydau** • **Dylid gwagio'r ardal a chreu ardal ddiogel wedi'i hynysu'n addas**			

Llofnod yr aseswr:

Enw a rheng:

Dyddiad:

Llofnod pennaeth yr isadran/adran:

Enw a Rheng:

Dyddiad:

Llofnod cynghorydd iechyd a diogelwch yr heddlu:

Enw:

Dyddiad: